


# POLISI DIOGELU

| | |
|---|---|
| Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb: | Cwblhawyd 30/05/23 |
| Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg: | Cwblhawyd 30/05/23 |
| Haen: | 1 |
| Cymeradwywyd gan: | Bwrdd y Llywodraethwyr |
| Dyddiad Cymeradwyo: | 11 Gorffennaf 2023 |
| Awdur: | Cyfarwyddwr<br>(Ansawdd a Phrofiad y Dysgwr) |
| Dyddiad Adolygu: | Ebrill 2025 |
| Cyhoeddwyd ar: | Mewnrwyd<br>Porth y Dysgwyr |

**Cynnwys**

**Tudalen**


1.0 Datganiad polisi 3

2.0 Diben a Chwmpas 3

3.0 Fframwaith Cyfreithiol 3

4.0 Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth 4

5.0 Categorïau o Gam-drin 4

6.0 Cydnabod Amheuaeth o Gam-drin 6

7.0 Cyfrinachedd a Datgelu 6

8.0 Gweithdrefn ar gyfer ymdrin ag achosion honedig o gam-drin yn erbyn plant neu oedolion mewn perygl 8

9.0 Honiadau o gam-drin yn erbyn aelod o staff 10

10.0 Delio â Phryderon ynghylch Radicaleiddio 10

11.0 Rolau a Chyfrifoldebau 11

12.0 Cwnselwyr y Coleg 14

13.0 Anfodlonrwydd ag ymchwiliad/ffordd yr ymdriniwyd â chwyn 14

14.0 Siaradwyr Gwadd Allanol 14


**ATODIADAU**


**Atodiad A:** Cysylltu ag Adran briodol yr Awdurdod Lleol

**Atodiad B:** Gweithdrefn Diogelu – Canllawiau i gwnselwyr

**Atodiad C:** Rhoi Gwybod am Honiadau o Gam-drin yn erbyn Aelodau Staff, ac Ymdrin â Honiadau

**Atodiad Ch:** Ecsbloetio Plant yn Rhywiol

**Atodiad D:** Priodas dan Orfod

**Atodiad F:** Diogelu Llwybrau Dysgu 14-19 (gan gynnwys EHE)

**Atodiad G:** Siaradwyr Gwadd Allanol

**Atodiad H:** Matrics Hyfforddiant Gorfodol

## Polisi Diogelu

### 1.0 DATGANIAD POLISI

Mae'r Coleg yn cydnabod bod gan ddysgwyr hawl sylfaenol i gael eu hamddiffyn rhag niwed ac y dylent gael y cyfle i ennill y budd mwyaf posibl o gyfleoedd addysg a hyfforddiant o ansawdd uchel.

Mae'r Coleg yn cydnabod ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau i ddiogelu a hyrwyddo lles plant ac oedolion mewn perygl. Mae ganddo ddyletswydd statudol a moesol i arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â diogelu a hyrwyddo lles plant ac oedolion mewn perygl sy'n derbyn addysg a hyfforddiant yn y Coleg

Mae'r Coleg wedi ymrwymo i weithio gyda sefydliadau perthnasol, i gymryd pob cam rhesymol ymarferol, i sicrhau bod y dyletswyddau cyfreithiol a bugeiliol mae dysgwyr yn eu haeddu o ran amddiffyn plant ac oedolion mewn perygl yn cael eu cyflawni yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol, canllawiau proffesiynol perthnasol ac arfer gorau.

Mae'r Coleg yn rhannu amcan gyda'r holl Awdurdodau Lleol, yr Heddlu a rhanddeiliaid yn y gwasanaeth addysg i helpu i gadw plant ac oedolion mewn perygl yn ddiogel drwy gyfrannu at greu amgylchedd dysgu diogel; gan nodi lle mae pryderon diogelu a gweithredu i fynd i'r afael â nhw gydag asiantaethau eraill.

Bydd y Polisi hwn yn destun adolygiad anffurfiol bob blwyddyn gan y Pwyllgor Diogelu ac adolygiad ffurfiol bob dwy flynedd gan Gorfforaeth y Coleg oni bai bod angen cymeradwyo newidiadau yn dilyn adolygiad blynyddol gan y Pwyllgor Diogelu.

### 2.0 DIBEN A CHWMPAS

**Diffiniadau:**

Yng nghyd-destun Diogelu, mae 'plant a phobl ifanc' yn berthnasol i'r rhai dan 18 mlwydd oed. Pan fo cyfeiriad at “rieni” mae hyn yn cynnwys yr unigolion hynny sydd â chyfrifoldeb rhiant.

Y diffiniad o 'oedolyn agored i niwed' yw un sydd, neu a allai fod angen gwasanaethau gofal cymunedol, oherwydd anabledd meddyliol neu anabledd arall, cymorth neu salwch, ac sydd, neu a allai fod yn methu â gofalu amdano'i hun, neu'n methu ag amddiffyn ei hun rhag niwed sylweddol neu gamfanteisio difrifol.

Mae gan y Coleg ddyletswydd statudol i ddiogelu plant ac oedolion mewn perygl ac i gynorthwyo Awdurdodau Lleol, yr heddlu ac asiantaethau eraill os bydd honiad o gam-drin yn cael ei wneud mewn perthynas â phlentyn neu oedolion mewn perygl ar safle'r Coleg. Bydd y Coleg yn cofrestru pryderon diogelu arwyddocaol trwy system y cytunwyd arni gyda’r Coleg ac yn ymwneud fel y bo'n briodol mewn camau dilynol. Os oes pryderon bod plentyn neu oedolion mewn perygl wedi cael eu cam-drin neu y gallai fod mewn perygl o niwed sylweddol, bydd atgyfeiriad yn cael ei wneud at yr asiantaethau priodol — e.e. yr heddlu, Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol.

### 3.0 FFRAMWAITH CYFREITHIOL

Mae'r paragraffau isod yn nodi'r fframwaith cyfreithiol sy'n sefydlu rôl Corff Llywodraethu'r Coleg mewn perthynas â diogelu plant ac oedolion mewn perygl:

Mae Adran 175 o Ddeddf Addysg 2002 (a ddaeth i rym ym mis Mehefin 2004) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol a chyrff llywodraethu Colegau Addysg Bellach (ac ysgolion) wneud trefniadau i sicrhau bod eu swyddogaethau'n cael eu cyflawni gyda'r bwriad o ddiogelu lles plant. Mae'n rhaid iddynt nodi unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol wrth ystyried pa drefniadau mae angen iddyn nhw eu gwneud.

*Cadw Dysgwyr yn Ddiogel: Mae rôl awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a pherchnogion ysgolion annibynnol o dan Ddeddf Addysg 2002* (Llywodraeth Cymru, 2020, canllawiau rhif 283/2022) yn nodi rôl Awdurdodau Lleol a Chyrff Llywodraethu Ysgolion a sefydliadau Addysg Bellach a sefydliadau eraill i roi cyngor ar y camau y dylid eu cymryd i alluogi ystyried achosion o amheuaeth o gam-drin neu gam-drin a nodwyd yn briodol a dilyn y camau priodol. Mae *Canllawiau Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan* yn nodi'r gweithdrefnau mae pob Bwrdd Diogelu Plant Lleol yng Nghymru wedi cytuno i'w gweithredu.

Rydym hefyd wedi nodi "Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015" Llywodraeth Cymru sy'n rhoi canllawiau ar sut y dylai sefydliadau ac unigolion weithio gyda'i gilydd i ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Mae argymhellion cyhoeddiad Llywodraeth EF 'What to do if you are worried a child is being abused' ac argymhellion y ddogfen bolisi Saesneg 'Safeguarding Children in Education (2004)' hefyd wedi cael eu hystyried.

Mae Deddf Diogelu Grwpiau Agored i Niwed 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr gynnal Gwiriadau Cofnodion Troseddol cyn y caniateir i weithwyr ddod i gysylltiad ag oedolion mewn perygl. O dan y ddeddfwriaeth hon, mae'n ofynnol i'r Coleg wneud cais am ddatgeliad manwl gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol ar gyfer staff sy'n gweithio gyda dysgwyr o'r fath.

**Adran 26 (1) o Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015:** Mae'r Canllawiau Dyletswydd Atal: ar gyfer sefydliadau addysg bellach yng Nghymru a Lloegr yn gosod dyletswydd ar addysg bellach wrth arfer ei swyddogaeth, i helpu i atal pobl rhag cael eu denu i derfysgaeth, sy'n cynnwys eithafiaeth dreisgar a di-drais. Fel rhan o'r ddyletswydd hon, mae Coleg Gwent wedi llunio Cynllun Gweithredu Diogelu, sy'n cael ei adolygu yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Diogelu bob tymor.

Bydd y Coleg yn adolygu ei bolisi a'i weithdrefnau ar amddiffyn plant ac oedolion mewn perygl er mwyn ystyried unrhyw ddeddfwriaeth, rheoliadau neu ddogfennau arfer gorau newydd gan y Llywodraeth i sicrhau bod staff yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am eu cyfrifoldebau a'u dyletswyddau o ran diogelwch a lles plant ac oedolion mewn perygl.

## 4.0 HYFFORDDIANT AC YMWYBYDDIAETH

Mae'r Coleg yn cydnabod bod angen i'r holl staff sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion mewn perygl gael hyfforddiant diogelu sylfaenol sy'n eu paratoi i gydnabod ac ymateb i bryderon lles diogelu. Lluniwyd y weithdrefn hon hefyd i sicrhau bod staff y Coleg yn cael eu paratoi'n briodol (er eu lles eu hunain yn ogystal â lles y plant a'r oedolion mewn perygl). Yn unol â hynny, bydd pob aelod o staff gan gynnwys y Pennaeth, gwirfoddolwyr a darparwyr trydydd parti yn derbyn hyfforddiant digonol i godi eu hymwybyddiaeth o faterion diogelu ac i ymgyfarwyddo â'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau fel rhan o gyflwyno a gweithredu'r polisi hwn (gweler Atodiad H). Bydd hyfforddiant gloywi yn cael ei ddarparu o leiaf unwaith bob dwy flynedd.

## 5.0 CATEGORÏAU O GAM-DRIN

Mae'r categorïau canlynol o gam-drin yn cael eu cymryd o'r ddogfen Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004:

**Cam-drin Corfforol:**

Gall cam-drin corfforol gynnwys taro, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi neu sgaldio, boddi, mygu neu achosi niwed corfforol i blentyn neu oedolion mewn perygl. Gall niwed corfforol gael ei achosi hefyd pan fydd rhiant neu ofalwr yn ffugio symptomau salwch, neu'n achosi symptomau salwch yn fwriadol, i blentyn neu oedolion mewn perygl maen nhw'n gofalu amdanynt. Gall y sefyllfa hon gael ei disgrifio fel salwch wedi'i ffugio neu ei achosi gan ofalwr.

**Cam-drin Emosiynol:**

Cam-drin emosiynol yw trin plentyn neu oedolion mewn perygl yn emosiynol wael yn barhaus, er mwyn achosi effeithiau andwyol difrifol a pharhaus ar ddatblygiad emosiynol y plentyn neu'r oedolion mewn perygl. Gall olygu cyfleu i blant neu oedolion mewn perygl eu bod nhw'n ddiwerth neu'n ddi-gariad, yn annigonol neu o werth cyhyd â'u bod nhw'n bodloni anghenion person arall yn unig. Gall gynnwys gosod disgwyliadau sy'n amhriodol yn ddatblygiadol neu o ran oedran ar blant neu oedolion mewn perygl. Gall gynnwys achosi i blant neu oedolion mewn perygl deimlo'n ofnus neu mewn perygl yn aml, neu gamfanteisio neu lygru plant ac oedolion mewn perygl. Mae rhyw lefel o gam-drin emosiynol yn cymryd rhan ym mhob math o gamdriniaeth o blentyn neu oedolion mewn perygl, er y gallai ddigwydd ar ei ben ei hun.

**Cam-drin rhywiol:**

Mae cam-drin rhywiol yn golygu gorfodi neu hudo plentyn neu oedolyn mewn perygl i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, p'un ai yw'r plentyn neu'r oedolyn mewn perygl yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ai peidio. Gall y gweithgareddau gynnwys cyswllt corfforol, gan gynnwys gweithredoedd treiddiol neu nad ydynt yn dreiddiol. Gallant gynnwys gweithgareddau nad ydynt yn cynnwys cyswllt corfforol, megis cynnwys plant neu oedolion mewn perygl wrth edrych ar ddeunydd pornograffig, neu ei gynhyrchu, neu wylio gweithgareddau rhywiol, neu annog plant neu oedolion mewn perygl i ymddwyn mewn ffyrdd rhywiol amhriodol. (Am wybodaeth ac arweiniad ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant, cyfeiriwch at Atodiad D).

**Esgeuluso:**

Esgeuluso plentyn neu oedolyn mewn perygl yn barhaus neu'n ddifrifol, neu fethiant i amddiffyn plentyn neu oedolyn mewn perygl rhag dod i gysylltiad ag unrhyw fath o berygl, gan gynnwys oerfel, newyn neu fethiant eithafol i gyflawni agweddau pwysig ar ofal, gan arwain at amhariad sylweddol ar iechyd neu ddatblygiad y plentyn neu'r oedolyn mewn perygl.

**Cam-drin Hiliol**

Mae'r Coleg yn ymwybodol o'i ddyletswydd i roi sylw dyledus i'r angen i gael gwared ar wahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ati ar sail rhyw, hil, anabledd, a lle bo'n briodol dylid darllen y polisi hwn ar y cyd â Chynllun Cydraddoldeb Sengl y Coleg. Dylai staff fod yn ymwybodol bod diogelu a hyrwyddo lles plant ac oedolion mewn perygl yn cynnwys cydymffurfio â dyletswyddau statudol sy'n cael eu hamlinellu yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

**Cam-drin Ariannol**

Mae cam-drin ariannol yn fath o gamdriniaeth a thwyll lle mae rhywun yn rheoli arian neu asedau eraill unigolyn arall drwy rym. Gall gynnwys, er enghraifft, dwyn arian parod, peidio â gadael i ddioddefwr gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau ariannol neu atal dioddefwr rhag cael swydd. Mae'r mater yn tueddu i ddigwydd amlaf mewn perthnasoedd domestig, megis rhwng gŵr a gwraig neu riant oedrannus a phlentyn sy'n oedolyn.

**Bwlio ac Aflonyddu:**

Dylai'r Coleg fod yn ymwybodol o'r Polisi hwn, a lle bo'n briodol, dylid ei ddarllen ar y cyd â Pholisi Gwrth-fwlio'r Coleg. Dylai staff fod yn ymwybodol y gellir ystyried bwlio ac aflonyddu fel categori arall o gam-drin a all hefyd gynnwys elfennau eraill o unrhyw un o'r chwe phrif gategori uchod o gam-drin, e.e. gallai gynnwys bwlio drwy ynysu neu wneud i blant neu oedolion mewn perygl deimlo eu bod nhw wedi cael eu heithrio o grwpiau cymdeithasol neu grwpiau addysgol.

Dylai pob aelod o staff fod yn ymwybodol o'r dangosyddion sy'n arwain at amheuaeth o gam-drin ac os bydd pryderon neu amheuon o gam-drin plant neu oedolion mewn perygl yn codi, dylid rhoi'r gweithdrefnau diogelu ar waith yn ddi-oed.

## 6.0 CYDNABOD AMHEUAETH O GAM-DRIN

Gellir canfod amheuaeth o gam-drin trwy weld/arsylwi. Er enghraifft, gall cleisiau, briwiau a llosgiadau fod yn amlwg, gan nodi cam-drin corfforol. Mae dangosyddion posibl o esgeulustod corfforol yn cynnwys dillad annigonol, twf gwael, newyn neu faeth sy'n ymddangos yn ddiffygiol a gall arwydd o gam-drin emosiynol gynnwys dibyniaeth ormodol neu geisio sylw.

Gall cam-drin rhywiol gael ei arddangos drwy arwyddion/anafiadau corfforol, neu drwy newid ymddygiadol arwyddocaol/sylweddol gan gynnwys rhagaeddfedrwydd neu fynd i'w cragen.

Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr ac ni all tystiolaeth o un neu fwy o'r ffactorau a restrir uchod wneud mwy nag arwain at amheuaeth o gam-drin ac nid ydynt yn dystiolaeth o gam-drin ynddyn nhw eu hunain. Fodd bynnag, os oes pryderon ynghylch lles plentyn neu oedolion mewn perygl am unrhyw reswm, rhaid i staff weithredu.

Gall plentyn neu oedolyn mewn perygl nodi'n benodol ei fod ef neu hi wedi cael ei gam-drin. Yn yr un modd, gall unigolyn arall nodi bod plentyn neu oedolyn mewn perygl wedi cael ei gam-drin.

Wrth ddelio â pherson ifanc neu oedolyn mewn perygl ag anghenion addysgol arbennig, rhaid gofyn am gyngor gan Aseswyr ADY y campws, neu Arweinydd ADY y Coleg cyn bwrw ymlaen.

Os oes gan aelod o staff bryderon sylweddol am blentyn neu oedolyn mewn perygl ond nad yw'n ystyried bod camdriniaeth neu risg o niwed uniongyrchol, dylai'r aelod o staff:

1. Siarad â Phennaeth Gwasanaethau Dysgwyr y campws a fydd yn ystyried a ddylai'r pryderon am y plentyn neu'r oedolyn mewn perygl gael eu cofrestru'n ffurfiol gan y Coleg; ac

2. Os yw'r Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr a'r aelod staff o'r farn bod hynny'n briodol, siarad â'r plentyn neu'r oedolyn mewn perygl am y pryderon.

## 7.0 CYFRINACHEDD A DATGELU

Bydd ffiniau cyfrinachedd clir yn cael eu cyfleu er nad yw'r holl wybodaeth yn gyfrinachol. Gwybodaeth gyfrinachol yw gwybodaeth sydd â rhywfaint o sensitifrwydd, nad yw eisoes yn gyfreithlon yn y parth cyhoeddus nac ar gael yn rhwydd o ffynhonnell gyhoeddus arall, ac sydd wedi'i rhannu mewn perthynas lle roedd y person oedd yn rhoi'r wybodaeth yn deall na fyddai'n cael ei rhannu ag eraill. Er enghraifft, efallai y bydd athrawes yn gwybod bod gan un o'i dysgwyr riant sy'n camddefnyddio cyffuriau. Mae hynny'n wybodaeth sydd â rhywfaint o sensitifrwydd ond efallai na fydd yn gyfrinachol os yw'n hysbys yn eang neu os yw wedi cael ei rhannu â'r athro/athrawes mewn amgylchiadau lle'r oedd y person yn deall y byddai'n cael ei rhannu ag eraill. Fodd bynnag, os yw'n cael ei rhannu gyda'r athro gan y dysgwr mewn sesiwn gwnsela, er enghraifft, byddai'n gyfrinachol.

Nid yw'r ddyletswydd cyfrinachedd sy'n ddyledus i blant ac oedolion mewn perygl yn absoliwt a gellir datgelu gwybodaeth gyfrinachol, a dylid gwneud hynny, er mwyn amddiffyn y plentyn neu'r oedolion mewn perygl neu blentyn neu oedolyn unigol arall sydd mewn perygl rhag niwed.

Bydd cyfrinachedd yn cael ei dorri lle nad yw rhannu gwybodaeth gyfrinachol wedi'i awdurdodi gan y person a roddodd y wybodaeth neu'r person mae'n ymwneud ag ef. Os rhoddwyd y wybodaeth ar y ddealltwriaeth y byddai'n cael ei rhannu ag ystod gyfyngedig o bobl neu at ddibenion cyfyngedig, yna ni fydd rhannu yn unol â'r ddealltwriaeth honno yn achos o dorri cyfrinachedd. Yn yr un modd, ni fydd cyfrinachedd yn cael ei dorri lle mae cydsyniad penodol i'r rhannu.

Lle bynnag y bo'n bosibl, dylid cael caniatâd cyn rhannu gwybodaeth bersonol â thrydydd partïon ond rhaid i'r ddyletswydd i ddiogelu a hyrwyddo lles y plentyn neu'r oedolyn mewn perygl bob amser ddiystyru'r ddyletswydd gyffredinol i gadw cyfrinachedd neu i gael caniatâd gan drydydd parti, er enghraifft, aelod o'r teulu os oes risg y bydd plentyn neu oedolyn mewn perygl yn dioddef niwed sylweddol neu ddifrifol. Diogelwch y plentyn neu'r oedolyn mewn perygl yw'r ystyriaeth bwysicaf bob amser.

Mae gan staff gyfrifoldeb proffesiynol i rannu gwybodaeth berthnasol am amddiffyn plant ac oedolion mewn perygl gyda gweithwyr proffesiynol eraill, yn benodol, asiantaethau ymchwilio lle bynnag y bo modd gyda chaniatâd. Efallai y bydd angen cyfnewid gwybodaeth berthnasol rhwng gweithwyr proffesiynol er mwyn diogelu a hyrwyddo lles plentyn neu oedolyn mewn perygl. Er y gall staff bryderu am yr angen i gydbwyso eu dyletswyddau i amddiffyn plant neu oedolion mewn perygl rhag niwed gyda'u dyletswydd gyffredinol tuag at blentyn neu oedolyn mewn perygl, y pryder pennaf bob amser yw lles y plentyn neu'r oedolyn mewn perygl.

Ym mhob achos o amheuaeth o gam-drin, rhaid i staff beidio â thrafod y mater gydag aelod arall o staff ond dylent roi gwybod ar unwaith am y manylion i'r Person Dynodedig, sef Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr y Campws, a fydd yn penderfynu pa gamau i'w cymryd. Os na ellir cysylltu â'r aelod dynodedig o staff, dylid rhoi gwybod i'r Arweinydd Diogelu, sef y Cyfarwyddwr (Ansawdd a Phrofiad Dysgwyr).

Os nad yw caniatâd plentyn neu oedolyn mewn perygl wedi'i geisio i ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol, neu ei fod wedi'i geisio a'i atal, mae'n bwysig bod yr aelod staff yn dweud wrth y plentyn neu'r oedolyn mewn perygl mewn ffordd briodol sensitif bod ganddo gyfrifoldeb i gyfeirio achosion o gam-drin honedig at yr asiantaethau priodol (os yw'r Person Dynodedig yn ystyried nad yw hyn yn debygol o gynyddu'r risg o niwed i'r plentyn neu'r oedolyn mewn perygl). Dylai'r plentyn neu'r oedolyn mewn perygl fod yn dawel ei feddwl y bydd materion yn cael eu datgelu i bobl sydd angen gwybod yn unig ac y bydd y plentyn neu'r oedolyn mewn perygl yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf. Os oedd y Person Dynodedig o'r farn y gallai dweud wrth y plentyn neu'r oedolyn mewn perygl y byddant yn rhoi gwybod am y mater i'r asiantaethau priodol gynyddu'r risg o niwed i'r plentyn neu'r oedolyn mewn perygl, yna ni ddylid rhoi gwybodaeth o'r fath i'r plentyn neu'r oedolyn mewn perygl.

Mewn amgylchiadau lle nad yw cydsyniad y plentyn neu'r oedolyn mewn perygl i ddatgelu wedi'i sicrhau, rhaid i staff ystyried a oes ganddynt, serch hynny, ddyletswydd hollbwysig i ddatgelu gwybodaeth o'r fath. Wrth wneud y penderfyniad hwn, dylid ystyried y cwestiynau canlynol: -

- Ydy'r datgeliad yn angenrheidiol ar gyfer atal neu ganfod trosedd, atal anhrefn, i ddiogelu diogelwch y cyhoedd neu amddiffyn hawliau a rhyddid pobl eraill?
- Ydy'r datgeliad yn angenrheidiol ar gyfer amddiffyn plant neu oedolion mewn perygl?
- Pa risgiau i eraill (*os o gwbl*) sy'n cael eu peri gan yr unigolyn hwn?
- Beth yw bregusrwydd y rhai a allai fod mewn perygl?
- Ydy'r datgeliad yn gymesur â'r nod a fwriadwyd?
- A oes dulliau amgen yr un mor effeithiol ond llai ymwthgar o gyflawni'r nod hwnnw?

## 8.0 GWEITHDREFN AR GYFER YMDRIN Â DIGWYDDIADAU HONEDIG O GAM-DRIN PLANT NEU OEDOLION MEWN PERYGL

### *8.1 Nodi digwyddiad diogelu honedig*

Os yw plentyn neu oedolyn mewn perygl yn datgelu camdriniaeth neu os amheuir cam-drin dylai staff wneud y canlynol:

- Gwrando'n ofalus a pheidio â chynhyrfu
- Caniatáu i'r plentyn neu'r oedolyn mewn perygl roi cyfrif heb ymyrraeth o'u pryderon. Os oes angen i chi ofyn cwestiynau am eglurhad, dylech gwestiynu fel arfer a heb bwysau er mwyn sicrhau bod yr hyn mae'r plentyn neu'r oedolyn mewn perygl yn ei ddweud yn cael ei ddeall yn llawn fel y gallwch chi sicrhau eich bod chi'n gwneud cofnod cywir.
- Nodwch y prif bwyntiau'n ofalus, byddwch yn ffeithiol a defnyddiwch eiriau'r plentyn neu'r oedolyn mewn perygl ei hun.
- Gwnewch nodyn manwl o'r canlynol:
    - Dyddiadau
    - Amseroedd/mannau lle digwyddodd y gamdriniaeth honedig
    - Yr hyn a ddywedodd ac a wnaeth y plentyn neu'r oedolyn mewn perygl
    - Unrhyw gwestiynau rydych chi'n eu gofyn ac ateb y plentyn neu'r oedolyn mewn perygl
    - Arsylwadau o unrhyw anafiadau
    - Eich enw ac enw unrhyw bobl eraill sy'n bresennol a dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod

Rhowch wybod i'r plentyn neu'r oedolyn mewn perygl bod gan y Coleg rwymedigaeth gyfreithiol i roi gwybod i'r awdurdodau priodol am achosion o gam-drin honedig, ond y bydd nifer y bobl sy'n ymwneud â hyn yn cael ei chadw i'r nifer lleiaf posibl ac y bydd gwybodaeth yn cael ei datgelu ar sail angen gwybod ac y bydd y plentyn neu'r oedolyn mewn perygl bob amser yn cael gwybod am y camau fydd yn cael eu cymryd (oni bai bod hyn yn debygol o gynyddu'r risg o niwed i'r plentyn neu'r oedolyn mewn perygl).

Dylech dawelu meddwl y plentyn neu'r oedolyn mewn perygl drwy gydol y broses, drwy ddweud eu bod wedi gwneud y peth iawn yn dweud wrth aelod o staff. Cynghorwch y plentyn neu'r oedolyn mewn perygl bod cymorth cwnsela ar gael gan Gwnselydd y campws (neu rywle arall mewn achosion priodol).

Os oes gan y plentyn neu'r oedolyn mewn perygl sy'n rhoi gwybod am y cam-drin honedig anabledd a/neu anawsterau cyfathrebu, dylid cymryd gofal ychwanegol i sicrhau bod gan y plentyn neu'r oedolyn mewn perygl fynediad at unrhyw aelod o staff neu weithiwr cymorth (fel y bo'n briodol) a bod yr aelod staff dan sylw yn meddu ar y sgiliau cyfathrebu priodol i ganiatáu i'r plentyn neu'r

oedolyn mewn perygl gyfathrebu'n effeithiol am y gamdriniaeth mae ef neu hi am roi gwybod amdano, e.e. Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol y campws neu Reolwr ADY y Coleg

NI ddylai staff wneud y canlynol:

- Rhoi geiriau yng ngheg y plentyn neu'r oedolyn mewn perygl neu ofyn cwestiynau arweiniol.
- Ymchwilio i bryderon neu honiadau. Nid oes gan yr aelodau staff unigol unrhyw rôl ymchwiliol ond dylent roi gwybod i'r Person Dynodedig neu'r Arweinydd Diogelu ar unwaith am honiadau.
- Addo cyfrinachedd. Dylai'r plentyn neu'r oedolyn mewn perygl ddeall, os bydd erlyniad troseddol a/neu achos disgyblu yn cael ei gynnal yna efallai na fydd unrhyw beth mae'r dioddefwr neu'r tystion yn ei ddweud yn aros yn gyfrinachol.
- Anghofio cofnodi'r hyn sydd wedi cael ei ddweud wrthych chi yn ysgrifenedig, dylech gofnodi'r amser, y dyddiad, y lle a'r bobl sy'n bresennol. Dylid cofnodi atebion y plentyn neu'r oedolyn mewn perygl yn yr union ffordd y cawsant eu dweud cyn belled ag y bo modd.
- Methu â throsglwyddo'r wybodaeth fel sy'n ofynnol gan y weithdrefn hon i'r Person Dynodedig neu'r Arweinydd Diogelu.
- Tybio y bydd rhywun arall yn cymryd y camau angenrheidiol.

### *8.2 Rhoi Gwybod i Staff Dynodedig*

Dylai staff roi gwybod am unrhyw bryderon, amheuon neu ddatgeliadau o gam-drin cyn gynted â phosibl ac o fewn 24 awr i'r Person Dynodedig, yr Arweinydd Diogelu neu drwy'r porth diogelu (My Concern) ar fewnrwyd y staff. Dylai'r Person Dynodedig sicrhau bod y person wnaeth roi gwybod am y pryder yn cwblhau adroddiad drwy'r porth. Bydd y Person Dynodedig yn cadw copi o'r canlynol:

- Yr adroddiad
- Unrhyw nodiadau neu ohebiaeth sy'n ymwneud â'r mater
- Unrhyw ddeunydd perthnasol arall

Bydd copi o'r adroddiadau, nodiadau a'r holl ddogfennau yn cael eu cadw’n ddiogel ar y porth. Ni ddylid argraffu'r rhain byth heb awdurdod gan brif unigolyn dynodedig diogelu'r Coleg, a bydd mynediad at gofnodion ar-lein yn cael ei gyfyngu i staff dynodedig.

### *8.3 Rhoi Gwybod i'r Uwch Aelod o Staff â Chyfrifoldeb Arweiniol*

Rhaid i'r Person Dynodedig neu'r Arweinydd Diogelu yn ei absenoldeb hysbysu'r uwch aelod o staff sydd â chyfrifoldeb arweiniol, sef yr Is-Bennaeth (Cwricwlwm ac Ansawdd), cyn gynted ag y bo'n ymarferol a beth bynnag o fewn 24 awr ar ôl i'r datgeliad neu'r amheuaeth gael ei godi.

Yn achos dysgwr Cyswllt Ysgol, dylai'r Person Dynodedig gydlynu’n agos ag aelod staff dynodedig yr ysgol. Cyfeiriwch at Atodiad F ar gyfer Datganiad Diogelu Llwybr Dysgu 14-19 y Coleg (gan gynnwys EHE).

Os bydd honiad o gam-drin plentyn neu oedolion mewn perygl yn y Coleg lle mae'r cyflawnwr honedig yn ddysgwr yn y Coleg, dylai'r Person Dynodedig roi sylw dyledus i weithdrefnau eraill y Coleg fel y bo'n briodol wrth ddilyn gweithdrefnau diogelu.

### *8.4 Cyswllt â'r Gwasanaeth Plant*

Rhaid i'r Person Dynodedig roi gwybod am y mater cyn gynted â phosibl dros y ffôn i Adran Gwasanaethau Plant yr awdurdod lleol lle mae'r plentyn neu'r person ifanc yn byw. Dylid gofyn am ffurflen atgyfeirio Amlasiantaeth gan y swyddog dyletswydd gwaith cymdeithasol.

Dylid gwneud cofnod ysgrifenedig o ddyddiad ac amser yr adroddiad a rhaid i'r adroddiad gynnwys enw a safle'r person y rhoddir gwybod iddo am y mater. Rhaid cadarnhau adroddiad dros y ffôn yn ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen atgyfeirio briodol lle bo'n bosibl i'r adran Gwasanaethau Plant o fewn 24 awr arall. Dylai staff fod yn ymwybodol bod cadw cofnodion da yn hanfodol ar gyfer ymarfer amddiffyn plant ac oedolion mewn perygl da. Yr holl nodiadau ac amserlen o'r camau i'w hychwanegu at y porth diogelu (My Concern).

Dylai'r Person Dynodedig drafod gyda'r gweithiwr cymdeithasol: -

- Pa gamau (os o gwbl) y dylid eu cymryd i hysbysu'r rhiant/gofalwr a/neu'r plentyn/oedolyn mewn perygl? Dylid gwneud nodyn o'r sgwrs honno a'i hychwanegu at y porth diogelu (My Concern).
- Y broses ar gyfer rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Coleg am gamau pellach sy'n cael eu cymryd.

Dylid gofyn am gyngor cyfreithiol os oes unrhyw amheuaeth ynghylch faint o wybodaeth neu briodoldeb y wybodaeth y gellir ei rhannu.

Pan fydd dysgwr sydd mewn perygl neu sy'n bygwth hunanladdiad yn cysylltu ag aelod o staff y tu allan i oriau'r coleg, dylai'r aelod staff ffonio 999 a chynnig cymaint o wybodaeth â phosibl i'r Heddlu, a ddylai gynnwys lleoliad y dysgwr yn ogystal ag unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â'r digwyddiad neu'r datgeliad y rhoddwyd gwybod amdano. P'un a yw'r dysgwr mewn perygl neu beidio, rhaid i'r aelod o staff roi gwybod i'r Person Dynodedig neu'r Arweinydd Diogelu am y datgeliad cyn gynted â phosibl

Pan fydd angen rhagor o wybodaeth ar yr Heddlu a/neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol, rhaid i'r aelod o staff gysylltu â'r Person Dynodedig, a fydd yn cyrchu system gwybodaeth reoli'r Coleg (My Concern/EBS) i gael y wybodaeth e.e. enwau a chyfeiriadau cyd-ddisgyblion a rhifau cyswllt mewn argyfwng, ac ati.

Os yw'r dysgwr o dan 18 mlwydd oed, dylid rhoi gwybod i'r rhiant, y gwarcheidwad neu'r gofalwr, fel arfer, ac eithrio dan yr amgylchiadau canlynol:

- Bod perygl o niwed sylweddol i'r plentyn
- Os yw staff yn teimlo dan fygythiad
- Mae'r plentyn yn alluog ac wedi mynegi dymuniad nad yw ei rieni yn cael gwybod.

Ym mhob achos, rhaid mai'r pryder pennaf yw lles y plentyn. Os oes unrhyw amheuon ynghylch gofyn am ganiatâd gan rieni, ni ddylid cysylltu â nhw neu, gellir gofyn am gyngor pellach gan yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol berthnasol. Dylai'r rhesymau dros unrhyw benderfyniad gael eu cofnodi'n llawn o fewn y porth diogelu (My Concern).

## 9.0 HONIADAU O GAM-DRIN YN ERBYN AELOD O STAFF

Efallai y bydd achlysuron pan fydd plentyn neu oedolyn mewn perygl yn cyhuddo aelod o staff o gam-drin. Mewn achosion o'r fath ac yn ychwanegol at y weithdrefn uchod y dylid ei dilyn yn llym o ran cynnwys ac o ran amseriad, rhaid i'r Person Dynodedig hysbysu'r Cyfarwyddwr (*Adnoddau Dynol)* ar unwaith. **Bydd** y Cyfarwyddwr (Adnoddau Dynol*)* yn rhoi gwybod i'r Is-Bennaeth (Cwricwlwm ac Ansawdd) a bydd yn enwebu Swyddog Ymchwilio yn unol â Pholisi a Gweithdrefn Ddisgyblu'r Coleg. Bydd unrhyw gamau a gymerir o ganlyniad i'r honiad yn cael eu cymryd yn unol â'r polisi hwnnw er na fydd unrhyw gamau yn cael eu cymryd i beryglu nac

ymyrryd ag unrhyw ymchwiliadau sy'n cael eu cynnal gan yr awdurdodau perthnasol. Mae Atodiad C yn nodi manylion y darpariaethau ar gyfer rhoi gwybod am honiadau o'r fatha, a delio â nhw.

## 10.0 DELIO Â PHRYDERON YNGHYLCH RADICALEIDDIO

Mae'r ddyletswydd i amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl rhag niwed yn ymestyn i'w hamddiffyn rhag cymryd rhan mewn grwpiau sy'n ceisio radicaleiddio unigolion. Mae radicaleiddio yn cyfeirio at y broses pan fydd person yn dod i gefnogi terfysgaeth a mathau o eithafiaeth sy'n arwain at derfysgaeth.

Mae colegau Addysg Bellach wedi'u nodi o fewn Strategaeth Atal y llywodraeth fel safleoedd posibl ar gyfer radicaleiddio.

Mae ffactorau sy'n cael eu hystyried wrth benderfynu a allai unigolyn fod mewn perygl o ymwneud â therfysgaeth yn cael eu disgrifio'n fras fel a ganlyn:

- Ymgysylltu â grŵp, achos neu ideoleg
- Bwriad i achosi niwed
- Y gallu i achosi niwed

Efallai y bydd staff neu ddysgwyr yn poeni am rywun oherwydd newidiadau mewn ymddygiad neu ymddangosiad. Er enghraifft:

- Gall unigolyn roi'r gorau i gysylltu â chyfoedion a dangos diddordeb mewn cysylltiad ag aelodau grŵp ideolegol penodol yn unig
- Gall unigolyn newid ei ddull arferol o wisgo
- Gall unigolyn esgusodi trais i gefnogi'r ideoleg maen nhw wedi'i mabwysiadu

Efallai bod llawer o resymau dros newidiadau o'r fath a dyna pam y dylid mabwysiadu dull diogelu i alluogi gwasanaethau perthnasol yn y coleg a thu allan i'r coleg i nodi anghenion a bregusrwydd unigolyn. Mae hyn yn cynnwys penderfynu a all Proses y Sianel fod o fudd.

Os yw aelod o staff neu ddysgwr yn poeni y gallai unigolyn fod yn cael ei radicaleiddio, dylai siarad â'r Person Dynodedig neu'r Arweinydd Diogelu. Os yw pryderon am ddysgwr Dysgu Oedolion yn y Gymuned, dylai staff neu ddysgwyr gysylltu â'r Pennaeth Dwyieithrwydd a Dysgu Cymunedol.

## 11.0 ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU

Mae yna Lywodraethwr Coleg dynodedig, uwch aelod o staff a phersonau dynodedig, ac mae gan bob un ohonynt gyfrifoldeb arbenigol dros faterion diogelu. Mae'r Coleg wedi datblygu gweithdrefnau yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd, ac yn dilyn ystyried y canllawiau, gan yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd, Llywodraeth Cymru a chyrff a grwpiau perthnasol eraill, gan gynnwys Cymdeithas y Colegau. Mae gweithdrefnau diogelu'r Coleg yn unol â Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan.

### Rôl y Corff Llywodraethu

Mae'r Corff Llywodraethu wedi ymrwymo i sicrhau bod y Coleg yn gwneud y canlynol:

- Darparu amgylchedd diogel i blant ac oedolion mewn perygl.
- Codi ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â diogelu a hyrwyddo lles plant ac oedolion mewn perygl yn y Coleg.

- Nodi plant ac oedolion mewn perygl sy'n dioddef neu mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol a chymryd camau priodol i sicrhau bod plant ac oedolion mewn perygl o'r fath yn cael eu cadw'n ddiogel yn y Coleg.
- Meddu ar weithdrefnau ar gyfer rhoi gwybod am honiadau o gam-drin yn erbyn aelodau o staff, dysgwyr eraill a gwirfoddolwyr, a delio â nhw.
- Gweithredu gweithdrefnau recriwtio diogel.
- Dynodi aelod o staff sydd â digon o awdurdod i gymryd cyfrifoldeb arweiniol dros amddiffyn plant ac oedolion mewn perygl
- Unioni unrhyw ddiffygion neu wendidau mewn perthynas â threfniadau amddiffyn plant ac oedolion mewn perygl sy’n cael eu dwyn i sylw'r Corff Llywodraethu

**Llywodraethwr Dynodedig (Diogelu)**

Bydd y Llywodraethwr Dynodedig yn gyfrifol am gysylltu â'r Pennaeth a'r Personau Dynodedig i sicrhau’r canlynol:

- Bod Polisi'r Coleg yn bodloni gofynion Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru;
- Bod y Polisi yn cael ei adolygu bob dwy flynedd gan y Corff Llywodraethu.
- Bod y Corff Llywodraethu yn cael gwybod sut mae'r Coleg a'i staff wedi cydymffurfio â'r Polisi.

Bydd y Llywodraethwr Dynodedig hefyd yn gyfrifol am oruchwylio cyswllt ag asiantaethau priodol mewn cysylltiad â honiadau yn erbyn y Pennaeth neu un o'r Personau Dynodedig. Ni fydd hyn yn golygu cynnal ymchwiliad ffurfiol ond bydd yn sicrhau cyfathrebu rhwng partïon ac yn darparu gwybodaeth i gynorthwyo ymholiadau. Bydd y Llywodraethwr Dynodedig hefyd yn sicrhau bod yr uwch aelod o staff sydd â chyfrifoldeb arweiniol yn cyflawni ei gyfrifoldebau.

Er mwyn cynorthwyo'r Llywodraethwr Dynodedig i gyflawni'r dyletswyddau hyn bydd ef/hi yn derbyn hyfforddiant priodol.

Mae manylion cyswllt y Llywodraethwr Dynodedig ar gael gan y Swyddog Llywodraethu.

**Uwch Aelod o Staff gyda Chyfrifoldeb Arweiniol**

Yr Uwch Aelod sydd â chyfrifoldeb arweiniol yw'r Is-Bennaeth (Cwricwlwm ac Ansawdd) ac mae'n gyfrifol am y canlynol:

- Cymryd y cyfrifoldeb arweiniol am godi ymwybyddiaeth ymhlith y staff o faterion sy'n ymwneud â lles plant ac oedolion mewn perygl a hyrwyddo amgylchedd diogel ar gyfer plant ac oedolion mewn perygl sy'n dysgu ac yn derbyn gofal o fewn y Coleg.
- Sicrhau bod yr Arweinydd Diogelu a'r Personau Dynodedig yn cyflawni eu cyfrifoldebau
- Adrodd yn flynyddol i Gorff Llywodraethu’r Coleg ar sut mae'r Coleg wedi cyflawni ei ddyletswyddau.
- Adrodd am ddiffygion (y gellir eu nodi’n fewnol neu gan asiantaethau allanol) yn y weithdrefn i'r Corff Llywodraethu cyn gynted â phosibl.
- Cadeirio Pwyllgor Diogelu'r Coleg.
- Sicrhau y cyfeirir at y Polisi a'i fod ar gael ar wefan y Coleg.
- Cyfrannu at ddiweddaru ac adolygu'r Polisi Diogelu bob blwyddyn.

Bydd yr aelod o staff sydd â chyfrifoldeb arweiniol wedi derbyn hyfforddiant mewn materion amddiffyn plant ac oedolion mewn perygl a gweithio rhyngasiantaethol yn ôl yr angen a bydd yn derbyn hyfforddiant gloywi bob tair blynedd o leiaf. Bydd yr aelod o staff sydd â'r cyfrifoldeb arweiniol yn sicrhau ei fod yn ymwybodol o ddatblygiadau mewn materion amddiffyn plant ac oedolion mewn perygl.

**Arweinydd Diogelu**

Yr Arweinydd Diogelu fydd y Cyfarwyddwr (Ansawdd a Phrofiad y Dysgwr) ac mae'n gyfrifol am y canlynol:

- Sicrhau bod Personau Dynodedig (neu unrhyw berson arall fel y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau hyn) yn cadw cofnod priodol o unrhyw atgyfeiriad, cwyn neu bryder (hyd yn oed os nad yw hyn yn arwain at atgyfeiriad);
- Sicrhau bod Personau Dynodedig yn cynnal cyswllt priodol ag asiantaethau allanol ac yn sicrhau bod staff, rhieni, sefydliadau partner a dysgwyr yn ymwybodol o Bolisi Diogelu'r Coleg;
- Darparu cyngor a chymorth i staff eraill ar faterion sy'n ymwneud â diogelu;
- Sicrhau pan fydd plentyn neu oedolyn mewn perygl yn gadael y Coleg, bod eu ffeil amddiffyn plentyn neu oedolyn mewn perygl yn cael ei chopïo i'w sefydliad addysg newydd a'i throsglwyddo ar wahân i brif ffeil y dysgwr;
- Ymdrin ag achosion unigol gan gynnwys mynychu cynadleddau achos a chyfarfodydd adolygu fel y bo'n briodol;
- Trafod y sefyllfa gyda'r Awdurdod Lleol priodol (cyfeiriwch at Atodiad A) gan gynnwys cyngor a thrafodaeth ynghylch p’un a oes angen atgyfeiriad ffurfiol ar gyfer diogelu plant neu oedolion mewn perygl;
- Gweithredu fel cyswllt ar gyfer asiantaethau sydd angen cysylltu â'r Coleg ynghylch materion amddiffyn plant neu oedolion mewn perygl;
- Ymgymryd â hyfforddiant mewn materion amddiffyn plant ac oedolion mewn perygl a gwaith rhyngasiantaethol yn ôl y gofyn ac ymgymryd â hyfforddiant gloywi o leiaf bob tair blynedd;
- Pan fydd cynllun amddiffyn plant neu oedolion mewn perygl rhyngasiantaethol ar waith, sicrhau bod y Coleg, os oes angen, yn rhan o'r gwaith o baratoi'r cynllun a sicrhau bod rôl y Coleg wedi'i diffinio'n glir;
- Cadw cofnodion cyfrinachol o'r holl gamau a gymerwyd mewn perthynas ag unrhyw achos sy'n ymwneud â honiadau o gam-drin plant neu oedolion mewn perygl;
- Cyfrannu at ddiweddaru ac adolygu'r Polisi Diogelu.

**Y 'Person Dynodedig'**

Y Person Dynodedig fydd Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr y Campws priodol ac mae'n gyfrifol am y canlynol:

- Codi ymwybyddiaeth ymhlith y staff o faterion sy'n ymwneud â lles plant ac oedolion mewn perygl a hyrwyddo amgylchedd diogel ar gyfer plant ac oedolion mewn perygl sy'n dysgu ac yn derbyn gofal o fewn y campws;
- Darparu cymorth i staff a allai fod yn rhan o weithredu'r polisi drwy wneud y canlynol:
  - Sicrhau bod anghenion hyfforddiant yn cael eu sefydlu, trefnu ymgynghoriad unigol a hyfforddiant mewnol i staff, a fydd yn cynnwys cwblhau hyfforddiant gloywi gan staff y campws o leiaf bob tair blynedd;
  - Sicrhau bod yr holl staff yn gwybod pwy yw'r Person Dynodedig;
  - Sicrhau bod yr holl staff yn gwybod y dylid cyflwyno pryderon am gamdriniaeth neu gamdriniaeth bosibl i'r Person Dynodedig neu yn ei absenoldeb i'r Arweinydd Diogelu;
  - Ymdrin ag achosion unigol gan gynnwys mynychu cynadleddau achos a chyfarfodydd adolygu fel y bo'n briodol;
- Darparu cyngor a chymorth i staff eraill ar faterion sy'n ymwneud ag amddiffyn plant ac oedolion mewn perygl;
- Cydlynu ag ysgolion uwchradd sy'n anfon disgyblion i'r Coleg i sicrhau bod trefniadau priodol yn cael eu gwneud ar gyfer y disgyblion;

- Cydlynu â chyflogwyr a sefydliadau hyfforddi sy'n derbyn plant neu oedolion mewn perygl gan y Coleg ar leoliadau i sicrhau bod mesurau diogelu priodol yn cael eu rhoi ar waith;
- Trafod sefyllfaoedd diogelu gyda'r Awdurdod Lleol priodol (cyfeiriwch at Atodiad A) gan gynnwys cyngor a thrafodaeth ynghylch p'un a oes angen atgyfeiriad ffurfiol ar gyfer diogelu plant neu oedolion mewn perygl;
- Gweithredu fel cyswllt ar gyfer asiantaethau sydd angen cysylltu â'r Coleg ynghylch materion amddiffyn plentyn neu oedolion mewn perygl;
- Rhoi gwybod i'r aelod staff sydd â chyfrifoldeb arweiniol;
- Ymgymryd â hyfforddiant mewn materion amddiffyn plant ac oedolion mewn perygl a gwaith rhyngasiantaethol yn ôl y gofyn, gan gynnwys hyfforddiant gloywi o leiaf bob tair blynedd;
- Nodi'r angen am gefnogaeth y gallai unrhyw weithiwr ei brofi pan fydd yn gysylltiedig ag achos o gam-drin a chysylltu â'r Cyfarwyddwr (AD) i sicrhau bod y gweithiwr yn ymwybodol o'r mecanweithiau cefnogi sydd ar gael;
- Sicrhau bod pob ymholiad gan rieni yn cael eu cyfeirio at yr Adran Awdurdod Lleol briodol;
- Cyfrannu at ddiweddaru ac adolygu'r Polisi Diogelu;
- Sicrhau y cyfeirir at y Polisi a'i fod ar gael ar ffurf copi caled mewn lleoliadau penodol ar y campws.

Os oes amheuaeth bod y Person Dynodedig ar y Campws yn cam-drin plant neu oedolion mewn perygl, rhaid i'r aelod staff neu'r aelodau sy'n ffurfio amheuon o'r fath fynd at yr Is-Bennaeth (Cwricwlwm ac Ansawdd), a fydd yn cyflawni rôl y Person Dynodedig yn y cyd-destun hwn.

**Swyddog Hyfforddiant Diogelu**

Y Swyddog Hyfforddiant Diogelu fydd y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol ac mae'n gyfrifol am y canlynol:

- Sicrhau bod holl staff y Coleg yn ymgymryd â hyfforddiant ar y lefel briodol yn rheolaidd, a fydd yn cynnwys cwblhau hyfforddiant gloywi gan staff o leiaf bob tair blynedd;
- Sicrhau bod anghenion hyfforddiant yn cael eu sefydlu, gan drefnu ymgynghoriad unigol a hyfforddiant mewnol ar gyfer staff y Coleg;
- Ymgymryd â hyfforddiant mewn materion amddiffyn plant ac oedolion mewn perygl a gwaith rhyngasiantaethol yn ôl y gofyn, gan gynnwys hyfforddiant gloywi o leiaf bob tair blynedd;
- Cyfrannu at ddiweddaru ac adolygu'r Polisi Diogelu.

## 12.0 CWNSELWYR Y COLEG

Dylai unrhyw un sy'n rhoi gwybod am amheuaeth o gam-drin i aelod o staff gael cynnig i dderbyn cwnsela gan Gwnselydd y Coleg. Os nad yw'r person dan sylw yn dymuno gweld Cwnselydd, rhaid parchu'r dymuniad hwn. Dylai'r plentyn neu'r oedolyn mewn perygl gael gwybod y gall ef neu hi siarad â chwnselydd yn y dyfodol os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny.

Yn ogystal, mae'r aelod o staff y datgelwyd y cam-drin iddo a/neu a oedd yn poeni am gamdriniaeth bosibl yn gallu cael mynediad at Gwnselydd drwy'r Rhaglen Cymorth i Weithwyr, ac efallai y bydd yn dymuno manteisio ar y cyfle hwn yn ôl ei hwylustod ei hun.

Mae'r weithdrefn ar gyfer honiadau o gam-drin a dderbyniwyd gan Gwnselwyr yn cael sylw yn y ddogfen atodol, Gweithdrefn Amddiffyn Plant – Canllawiau i gwnselwyr (Atodiad B).

Argymhellir y dylai Cwnselydd y Coleg y mae honiadau o gam-drin yn cael eu datgelu iddo ymgynghori â'i oruchwyliwr mewn achosion o'r fath, er y dylid diogelu hunaniaeth y "cleient" cyn belled ag y bo modd.

Dylai Cwnselwyr y Coleg roi gwybod i blentyn neu oedolyn mewn perygl ar y dechrau am y cyfyngiadau ar allu'r Cwnselydd i gadw materion mae'r plentyn neu'r oedolion mewn perygl yn eu codi yn gyfrinachol. Dylid nodi unrhyw gyfyngiadau o'r fath yn glir mewn unrhyw gontract ysgrifenedig.

## 13.0 ANFODLONRWYDD AG YMCHWILIAD/FFORDD YR YMDRINIWYD Â CHWYN

Os bydd unrhyw berson yn dymuno cwyno am y ffordd yr ymdriniwyd â'r mater, dylid gwneud y gŵyn hon yn ysgrifenedig i'r Is-Bennaeth (Cwricwlwm ac Ansawdd) a fydd yn adolygu'r manylion.

Os canfyddir bod rhinwedd i unrhyw honiadau, bydd yr Is-Bennaeth yn adolygu'r dystiolaeth er mwyn canfod a ddylid deddfu gweithdrefnau disgyblu'r Coleg ac a ddylid gosod unrhyw sancsiynau ac a oes angen hysbysu asiantaethau allanol am y canfyddiadau.

## 14.0 SIARADWYR GWADD ALLANOL

Efallai y bydd adegau pan fydd Undeb y Myfyrwyr (neu ddysgwr sy'n gweithredu ar ran Undeb y Myfyrwyr) yn dymuno gwahodd siaradwyr gwadd i Goleg Gwent. Mae hyn yn cael ei gefnogi gan y coleg lle mae hyn yn ychwanegu gwerth at brofiad y dysgwr ac yn annog dysgwyr i ddatblygu syniadau a sgiliau a fydd yn eu paratoi ar gyfer astudio a gwaith pellach. Fodd bynnag, mae gan y coleg ddyletswydd gofal i sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cadw'n rhydd rhag niwed ac felly mae'n gofyn bod y weithdrefn a nodir yn Atodiad G yn cael ei dilyn i geisio cymeradwyaeth cyn cwblhau unrhyw ymweliadau o'r fath.

**ATODIAD A**

## Cysylltu ag Adran briodol yr Awdurdod Lleol

Yr Adran Awdurdod Lleol briodol y dylid cysylltu â hi mewn achosion o gam-drin plant ac oedolion mewn perygl fydd yr un sy'n cwmpasu'r ardal lle digwyddodd y digwyddiad.

Felly, pe bai'r digwyddiad yn digwydd yng nghartref y dysgwr, yr Adran Awdurdod Lleol briodol fyddai'r Adran ar gyfer yr Ardal Ddaearyddol honno.

Pe bai'r digwyddiad yn digwydd ar y Campws, yr Adran Awdurdod Lleol briodol fyddai'r Adran sy'n cwmpasu'r Campws hwnnw.

Mae'r Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol priodol ar gyfer pob Campws fel a ganlyn:

| **Campws** | **Adran Gwasanaethau Cymdeithasol** | |
|---|---|---|
| BGLZ | Glynebwy C2BG<br>Rheolwr Diogelu | (01495) 315700<br>(01495) 354792 |
| Brynbuga | Sir Fynwy | (01291 635669) |
| Dinas Casnewydd | Casnewydd | (01633) 235273 |
| TLZ | Torfaen | (01495) 762200 |
| Pont-y-cymer | Gellihaf | (01443) 873 514 |
| Swyddog Datblygu Amddiffyn Plant | Caerffili | (02920) 858 850 |
| Tîm Dyletswydd mewn Argyfwng | De Ddwyrain Cymru | (0800 3284432) |

Y tu allan i oriau swyddfa arferol, gellir cysylltu â'r Tîm Gwasanaethau Cymdeithasol mewn Argyfwng drwy'r heddlu. (*Pencadlys Heddlu Gwent. Croesyceiliog, Cwmbrân 01633 838111)*.

**ATODIAD B**

## Gweithdrefn Diogelu — Canllawiau i Gwnselwyr

***Cyswllt Cychwynnol***

Rhaid i gwnselwyr bob amser bwysleisio ar ddechrau cwnsela na allant sicrhau cyfrinachedd mewn amgylchiadau lle byddai'n ofynnol iddynt ddatgelu gwybodaeth yn ôl y gyfraith.

***Pan fydd datgeliad yn cael ei wneud***:

a. Lle mae'n ymddangos bod unigolyn mewn perygl o niwed sylweddol, ond nad oes risg i eraill:

- Dylid ceisio cytundeb cleient i ddatgelu i'r Person Dynodedig a'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Os byddant yn cytuno, rhowch wybod i'r Person Dynodedig ar y cyfle ymarferol cyntaf;

- Os na fyddant yn cytuno, rhaid i'r cwnselydd wneud penderfyniad mewn perthynas â datgelu ai peidio.

Os yw plentyn neu oedolyn mewn perygl yn ymddiried mewn aelod o staff ac yn gofyn i'r wybodaeth gael ei chadw'n gyfrinachol, mae'n bwysig bod yr aelod o staff yn dweud wrth y plentyn neu'r oedolyn mewn perygl fod ganddo gyfrifoldeb i gyfeirio achosion o gam-drin honedig at yr asiantaethau priodol er mwyn y plentyn neu'r oedolyn mewn perygl ei hun.

Os yw'r plentyn yn blentyn mewn angen, neu y gallai fod yn blentyn mewn angen, dylid atgyfeirio'r plentyn at y gwasanaethau cymdeithasol. Gall hyn gynnwys plentyn y credir ei fod mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol.

Gall cwnselwyr fod yn bryderus am y cyfyngiadau cyfreithiol neu foesegol ar rannu gwybodaeth, yn enwedig gydag asiantaethau eraill. Dylid cadw at ymwybyddiaeth o'r gyfraith a chydymffurfiaeth â'r cod ymddygiad neu ganllawiau eraill sy'n berthnasol i'r proffesiwn. Anaml y bydd y rhain yn darparu rhwystr llwyr i ddatgelu. Dylid arfer barn y cwnselydd. Gallai methu â throsglwyddo gwybodaeth a allai atal trasiedi amlygu cwnselwyr i feirniadaeth yn yr un modd â datgeliad na ellir ei gyfiawnhau. Gall penderfyniad ynghylch p’un a ddylid datgelu gwybodaeth fod yn arbennig o anodd os gallai niweidio'r ymddiriedaeth rhwng cwnselydd a'r claf/cleient. Lle bynnag y bo modd, dylai cynghorwyr egluro'r broblem, ceisio cytundeb ac egluro'r rhesymau os gwneir penderfyniad i weithredu yn erbyn dymuniadau rhiant/gofalwr neu blentyn/oedolyn mewn perygl. Yn aml mae'n ddefnyddiol trafod pryderon o'r fath.

Gall rhai amgylchiadau ddiystyru'r ymdrech ymwybodol i geisio caniatâd cleient, yn enwedig brys y sefyllfa, difrifoldeb y niwed sydd ar ddod i'r cleient neu eraill, diffyg dealltwriaeth ddigonol y cleient i roi caniatâd neu lle byddai ceisio caniatâd y cleient yn golygu mwy o niwed i'r cleient

Y ffactor allweddol wrth benderfynu a ddylid datgelu ai peidio yw cymesuredd, h.y. ydy'r datgeliad arfaethedig yn ymateb cymesur i'r angen i ddiogelu lles y plentyn neu'r oedolyn mewn perygl? Mewn sefyllfa lle mae plentyn neu oedolyn mewn perygl yn bygwth cyflawni hunanladdiad os bydd gwybodaeth a roddwyd ganddynt yn cael ei datgelu i'r gwasanaethau cymdeithasol, mae'r ddyletswydd bennaf i ddiogelu lles y plentyn neu'r oedolyn mewn perygl yn debygol o ddiystyru'r angen i gynnwys y gwasanaethau cymdeithasol ar y cam hwnnw. Fodd bynnag, byddai disgwyl i'r cwnselydd yn y sefyllfa honno archwilio ffyrdd eraill o amddiffyn lles y plentyn neu'r oedolyn mewn perygl gyda nhw a/neu eu perswadio i gydsynio i'r datgeliad. Rhaid i les y plentyn neu'r oedolyn mewn perygl fod yn ystyriaeth hollbwysig bob amser.

b. Lle mae risg i eraill

Mewn achosion lle mae risg i unigolion eraill, rhaid i'r cwnselydd arfer ei farn broffesiynol unwaith eto, fel uchod.  Fodd bynnag, gan fod o leiaf un unigolyn arall mewn perygl, mae'n rhaid i'r ffactorau sydd i'w hystyried newid hefyd.

a. Dylid ceisio cytundeb cleient i ddatgelu i'r Person Dynodedig a'r Gwasanaethau Cymdeithasol.  Os byddant yn cytuno, rhowch wybod i'r Person Dynodedig ar y cyfle ymarferol cyntaf;

b. Os na fyddant yn cytuno, rhaid i'r cwnselydd wneud penderfyniad mewn perthynas â datgelu ai peidio, gan ystyried y canllawiau uchod.

**ATODIAD C**

## Rhoi Gwybod am Honiadau o Gam-drin yn erbyn Aelodau Staff, ac Ymdrin â Honiadau

Mae'r Coleg yn cydnabod y gall honiad o gam-drin plentyn neu oedolyn mewn perygl sy'n cael ei wneud yn erbyn aelod o staff gael ei wneud am amrywiaeth o resymau ac y gall yr honiad fod yn wir neu ddim. Cydnabyddir hefyd y gall penderfyniadau brysiog neu anwybodus niweidio enw da, hyder a gyrfa unigolyn. Felly, bydd honiadau o gam-drin gan aelod o staff yn cael eu trin yn sensitif.

Mae'n hanfodol bod unrhyw honiad o gam-drin sy'n cael eu gwneud yn erbyn aelod o staff yn cael ei drin yn deg, yn gyflym ac yn gyson. Mae'r gweithdrefnau hyn yn berthnasol i bob aelod o staff, boed yn staff addysgu, gweinyddol, rheoli neu gefnogi ac i wirfoddolwyr.

**Derbyn Honiad gan Blentyn/Oedolion mewn perygl**

Dylai aelod o staff sy'n derbyn honiad am aelod arall o staff ddilyn y canllawiau yn adran 8.0 ar gyfer delio â datgeliad.

Dylid rhoi gwybod i'r Pennaeth am yr honiad ar unwaith oni bai mai'r Pennaeth yw'r person y cyflwynir yr honiad yn ei erbyn ac os felly dylid cyflwyno'r adroddiad i'r aelod staff sydd â chyfrifoldeb arweiniol neu i'r llywodraethwr dynodedig.

Dylai'r Pennaeth (neu'r person dynodedig os yw'r honiad yn erbyn y Pennaeth)

- Gael manylion ysgrifenedig am yr honiad gan y person a'i derbyniodd, ei ddyddio a'i lofnodi. Dylai'r manylion ysgrifenedig gael eu cydlofnodi a'u dyddio gan y Pennaeth (neu'r person dynodedig).
- Cofnodi gwybodaeth mewn perthynas ag amser, dyddiadau, lleoliad ac enwau unrhyw dystion posibl. Dylid cadw'r wybodaeth hon yn ddiogel.

**Asesiad Cychwynnol gan y Pennaeth (neu'r person dynodedig)**

Rhaid i'r Pennaeth (neu'r person dynodedig) wneud asesiad cychwynnol o'r honiad gan ymgynghori â'r uwch aelod o staff sydd â chyfrifoldeb arweiniol fel y bo'n briodol.

Os ystyrir bod yr honiad yn weithred droseddol bosibl neu os yw'n dangos bod y plentyn wedi dioddef, yn dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol, rhaid rhoi gwybod i'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol briodol ar unwaith am y mater.

Mae'n bwysig nad yw'r Pennaeth (neu'r person dynodedig) yn ymchwilio i'r honiad. Dylai'r asesiad cychwynnol fod ar sail y wybodaeth a dderbyniwyd a bydd hyn yn penderfynu p'un a yw'r honiad yn cyfiawnhau ymchwiliad pellach ai peidio.

Canlyniadau posibl eraill yw:

- Bod yr honiadau mor ddifrifol fel bod angen i'r heddlu a/neu'r gwasanaethau cymdeithasol ymchwilio iddynt.
- Bod yr honiad yn cynrychioli ymddygiad amhriodol neu farn wael gan yr aelod o staff ac nad yw o bosibl yn drosedd nac yn achos niwed arwyddocaol i'r plentyn neu'r oedolyn mewn perygl. Dylid mynd i'r afael â'r mater yn unol â gweithdrefnau disgyblu'r Coleg.
- Gellir dangos bod yr honiad yn ffug oherwydd na allai'r ffaith neu'r ffeithiau a honnir fod yn wir o bosibl.

**Ymholiadau ac Ymchwiliadau**

Ni ddylid drysu ymholiadau diogelu plant ac oedolion mewn perygl gan y gwasanaethau cymdeithasol na'r heddlu â'r ymholiadau disgyblu mewnol gan y Coleg. Efallai y bydd y Coleg yn gallu defnyddio canlyniad ymholiadau gan asiantaethau allanol i gynorthwyo ei weithdrefnau ei hun. Nid oes gan asiantaethau amddiffyn plant ac oedolion mewn perygl, gan gynnwys yr heddlu, unrhyw bŵer i gyfarwyddo'r Coleg i weithredu mewn ffordd benodol ond dylai'r Coleg gynorthwyo'r asiantaethau gyda'u hymholiadau.

Gall y Coleg ystyried cynnal ei ymholiadau mewnol ei hun tra bod ymchwiliadau ffurfiol yr heddlu neu'r gwasanaethau cymdeithasol yn mynd rhagddynt; os oes risg y byddai'r ymchwiliadau hyn yn cael eu rhagfarnu gan ymholiadau'r Coleg.

Bydd unrhyw ymholiad mewnol yn cydymffurfio â gweithdrefnau disgyblu staff presennol.

Os oes ymchwiliad gan asiantaeth allanol, er enghraifft yr heddlu, dylai’r Pennaeth (neu'r person dynodedig) fod yn rhan o'r drafodaeth strategaeth rhyngasiantaethol a chyfrannu ati. Y Pennaeth (neu'r person dynodedig) sy'n gyfrifol am sicrhau bod y Coleg yn rhoi pob cymorth gydag ymholiadau'r asiantaeth. Bydd ef/hi yn sicrhau bod cyfrinachedd priodol yn cael ei gynnal mewn cysylltiad â'r ymholiadau er budd yr aelod o staff mae’r honiad yn cael ei wneud yn ei erbyn.

Bydd y Pennaeth (neu'r person dynodedig) yn cynghori'r aelod staff y dylai ymgynghori â chynrychiolydd, er enghraifft undeb llafur.

Yn amodol ar wrthwynebiadau gan yr heddlu a/neu asiantaethau ymchwilio eraill, bydd y Pennaeth (neu'r person dynodedig) yn gwneud y canlynol:

- Rhoi gwybod i'r plentyn/oedolyn mewn perygl neu'r rhiant/gofalwr sy'n gwneud yr honiad bod yr ymchwiliad yn digwydd a beth fydd y broses debygol yn ei olygu.
- Sicrhau bod rhiant/gofalwyr pob plentyn/oedolyn mewn perygl sy'n gwneud yr honiad wedi cael gwybod bod yr honiad wedi'i wneud a beth fydd y broses debygol yn ei olygu.
- Rhoi gwybod i'r aelod o staff y gwnaed yr honiad yn ei erbyn o'r ffaith bod yr ymchwiliad yn cael ei gynnal a beth fydd y broses debygol yn ei olygu.
- Rhoi gwybod i Gadeirydd y Llywodraethwyr a'r Llywodraethwr Dynodedig am yr honiad a'r ymchwiliad.

Rhaid i'r Pennaeth neu'r person dynodedig gadw cofnod ysgrifenedig llawn o'r camau a gymerwyd mewn cysylltiad â'r honiad

**Gwahardd Staff**

Mae angen gwerthuso a rheoli risgiau posibl niwed i blant ac oedolion mewn perygl gan unigolyn sydd wedi’i gyhuddo ac mewn rhai achosion, bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Coleg ystyried gwahardd yr unigolyn nes i'r achos gael ei ddatrys. Ni ddylai gwaharddiad fod yn awtomatig ym mhob achos lle mae honiad yn gwarantu ymchwiliad pellach. Dylid ystyried:

- Lle mae plentyn neu oedolyn mewn perygl yn wynebu risg
- Lle gallai'r cyhuddiadau fod yn ddigon difrifol i gyfiawnhau diswyddo ar sail camymddwyn dybryd
- Lle bo angen er mwyn cynnal yr ymchwiliad yn dda ac yn effeithlon.
- Bydd y gwaharddiad yn unol â Gweithdrefnau Disgyblu'r Coleg.

Pan fydd aelod o staff yn cael ei wahardd dros dro, dylai'r Pennaeth (neu Gadeirydd neu Is-gadeirydd y Llywodraethwyr) fynd i'r afael â'r materion canlynol:

- Pan fydd y Pennaeth wedi'i wahardd, bydd angen i Gadeirydd neu Is-gadeirydd y Llywodraethwyr gymryd camau i addasu rheolaeth y Coleg.
- Dylai Rhiant/gofalwyr y plant neu'r oedolion mewn perygl yng nghanol yr honiadau gael gwybod am y gwaharddiad. Dylid gofyn iddynt drin y wybodaeth yn gyfrinachol. Dylid ystyried rhoi gwybod i'r plant neu'r oedolion mewn perygl sy'n destun yr honiad o gam-drin am y gwaharddiad hwn.
- Dylid rhoi gwybod i staff uwch sydd angen gwybod am y rheswm dros y gwaharddiad.
- Yn dibynnu ar natur yr honiad, dylai'r Pennaeth ystyried gyda'r Llywodraethwr dynodedig a ddylid gwneud datganiad cyhoeddus i fyfyrwyr y Coleg a/neu'r Rhiant a/neu'r gofalwr gan roi sylw dyledus i'r angen am gyfrinachedd neu er mwyn osgoi cyhoeddusrwydd digroeso.
- Bydd y Pennaeth yn ystyried yn ofalus ac yn adolygu'r penderfyniadau o ran pwy sy'n cael gwybod am y gwaharddiad a'r ymchwiliad. Dylid ymgynghori ag asiantaethau priodol yr awdurdod lleol a'r awdurdodau ymchwilio allanol.
- Dylai'r aelod o staff sydd wedi'i wahardd gael cefnogaeth briodol yn ystod cyfnod y gwaharddiad, ac mae cynnwys mynediad at gwnselwyr y Coleg yn briodol. Dylai ef neu hi gael gwybodaeth am gynnydd a datblygiad yn yr achos yn rheolaidd.
- Dylai'r gwaharddiad barhau i gael ei adolygu yn unol â gweithdrefnau disgyblu'r Coleg.

**Yr Ymchwiliad Disgyblu**

Dylid cynnal yr ymchwiliad disgyblu yn unol â gweithdrefnau disgyblu staff presennol y Coleg.

Dylai'r plentyn neu'r oedolion mewn perygl yng nghanol yr honiad a/neu eu rhieni gael gwybod canlyniad yr ymchwiliad a'r achos. Dylai hyn ddigwydd cyn i'r aelod o staff ddychwelyd i'r Coleg (os caiff ei wahardd).

Dylai'r Pennaeth (neu Gadeirydd/Is-gadeirydd y Llywodraethwyr) ystyried pa wybodaeth ddylai fod ar gael i boblogaeth gyffredinol y Coleg.

**Honiadau heb sylfaen**

Gall honiadau ffug fod yn arwydd o broblemau camdriniaeth mewn mannau eraill. Dylid cadw cofnod ac ystyried atgyfeiriad i'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Plant er mwyn i asiantaethau eraill weithredu ar yr wybodaeth.

Mewn ymgynghoriad â'r aelod o staff sydd â chyfrifoldeb arweiniol dros amddiffyn plant ac oedolion mewn perygl a/neu'r Llywodraethwr dynodedig, bydd y Pennaeth yn gwneud y canlynol:

- Rhoi gwybod i'r aelod o staff mae'r honiad wedi'i gwneud yn ei erbyn ar lafar ac yn ysgrifenedig na fydd unrhyw gamau disgyblu nac amddiffyn plant pellach yn cael eu cymryd.
- Rhoi gwybod i rieni/gofalwyr y dioddefwr honedig bod yr honiad wedi'i wneud ac o'r canlyniad.
- Lle mae'r honiad wedi'i wneud gan blentyn neu oedolyn mewn perygl heblaw'r dioddefwr honedig, dylid ystyried hysbysu'r rhiant/gofalwr am y plentyn/oedolion hynny mewn perygl
- Paratoi adroddiad yn amlinellu'r honiad ac yn rhoi rhesymau dros y casgliad nad oedd sylfaen iddo a chadarnhau bod y camau uchod wedi'u cymryd.

Ni ddylai staff deimlo'n bryderus ynghylch rhoi gwybod am unrhyw amheuaeth o gam-drin gan aelod o staff rhag ofn profi camau disgyblu os bydd yr honiadau'n ddi-sail.

**Cofnodion**

Mae'n bwysig bod dogfennau sy'n ymwneud ag ymchwiliad yn cael eu cadw mewn man diogel, ynghyd â chofnod ysgrifenedig o'r canlyniad ac, os bydd camau disgyblu'n cael eu cymryd, dylid cadw'r manylion ar ffeil bersonol a chyfrinachol yr aelod staff.

Os bydd aelod o staff yn cael ei ddiswyddo neu'n ymddiswyddo cyn i'r broses ddisgyblu gael ei chwblhau, dylid rhoi gwybod iddo/iddi am ddyletswydd statudol y Coleg i lywio'r Cynllun Datgelu a Gwahardd.

Dylid gofyn am gyngor cyfreithiol os oes gennych chi unrhyw amheuaeth ynghylch faint o wybodaeth y gellir ei rhannu.

**Monitro Effeithiolrwydd**

Pan fydd honiad wedi'i wneud yn erbyn aelod o staff, dylai'r Llywodraethwr Dynodedig, ynghyd â'r Aelod Staff â Chyfrifoldeb Arweiniol, ar ddiwedd yr ymchwiliad ac unrhyw weithdrefnau disgyblu, ystyried a oes unrhyw faterion yn codi ohono a allai arwain at wella gweithdrefnau a/neu bolisïau'r Coleg a/neu y dylid eu tynnu i sylw'r SEWSCB. Dylid hefyd ystyried anghenion hyfforddi staff.

**GWEITHDREFNAU RECRIWTIO A DETHOL**

Bydd gan y Coleg weithdrefnau recriwtio ar waith a fydd yn sicrhau bod pob gofal yn cael ei gymryd i sicrhau bod plant/oedolion mewn perygl yn cael eu hamddiffyn rhag pobl anaddas.

Bydd y gweithdrefnau recriwtio yn berthnasol i'r holl staff a gwirfoddolwyr yn y Coleg a allai weithio gyda phlant neu oedolion mewn perygl. Bydd y gweithdrefnau recriwtio yn cynnwys y canlynol:

- Gwiriad hunaniaeth;
- Bydd y swydd neu'r rôl yn cael ei diffinio'n glir;
- Bydd y meini prawf dethol allweddol ar gyfer y swydd neu'r rôl yn cael eu nodi;
- Y gofyniad i gynhyrchu tystiolaeth ddogfennol o gymwysterau academaidd/galwedigaethol;
- Cael geirda proffesiynol a geirda cymeriad;
- Gwirio hanes cyflogaeth blaenorol;
- Gwiriadau'r Cynllun Datgelu a Gwahardd Safonol (DBS) ar gyfer unrhyw Ymgeisydd neu Wirfoddolwr sy'n Oedolyn nad yw'n gwneud cais i weithio/gwirfoddoli i gydlynu â phlant neu oedolion mewn perygl wrth gynnal defnydd sensitif a chyfrinachol o ddatgeliad yr ymgeisydd
- Gwiriad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd lle mae'r Ymgeisydd neu'r Gwirfoddolwr yn gwneud cais i weithio mewn gweithgaredd rheoledig
- Gwirio manylion cofrestru EWC os yw'n berthnasol, neu gwneud cais am gofrestriad EWC os yw'n berthnasol.
- Defnyddio amrywiaeth o dechnegau dethol (e.e. cymwysterau, profiad blaenorol, cyfweliad, gwiriadau geirda).

O ganlyniad i gyflwyno'r DBS:

- Rhaid i'r Coleg beidio â chyflogi, na defnyddio fel gwirfoddolwr, person sydd wedi'i wahardd rhag gweithio gyda phlant ac oedolion mewn perygl mewn gweithgaredd rheoledig.

**ATODIAD D**

## Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant

Mae Barnardo's Cymru yn cynghori bod 'camfanteisio'n rhywiol ar blant a phobl ifanc yn ffurf gudd o gam-drin ac felly mae'n anodd ei ddiffinio. Datblygwyd nifer o ddiffiniadau gwahanol drwy waith ymchwilwyr ac ymarferwyr er bod cysyniadau camfanteisio a chyfnewid yn ganolog i bob un.'

Un diffiniad yw:

> *'Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn golygu gorfodi neu ddylanwadu ar blant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol. Mae'n fath o gam-drin rhywiol sy'n cynnwys cyfnewid rhyw fath o daliad a all gynnwys arian, ffonau ac eitemau eraill, cyffuriau, alcohol, lle i aros, amddiffyniad neu anwyldeb. Mae bregusrwydd y bobl ifanc a'r broses baratoi a ddefnyddir gan gyflawnwyr yn eu gwneud yn ddi-rym i gydnabod natur ecsbloetiol perthnasoedd a methu â rhoi caniatâd gwybodus* 'Clutton. S a Coles. J (2008)

Y prif fathau a'r mathau rhyng-gysylltiedig o gamfanteisio'n rhywiol ar blant (CSE) yw:

- cam-drin trwy gyfnewid gweithgaredd rhywiol am ryw fath o daliad
- cam-drin trwy gynhyrchu delweddau anweddus a/neu unrhyw ddeunydd anweddus arall sy'n cynnwys plant boed yn ffotograffau, ffilmiau neu dechnolegau eraill
- cam-drin trwy baratoi p'un ai trwy gyswllt uniongyrchol neu ddefnyddio technolegau fel ffonau symudol a'r rhyngrwyd
- cam-drin trwy fasnachu pobl at ddibenion rhywiol

Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn fath arbennig o gudd o gam-drin ac mae datgeliadau o'r math hwn o gam-drin yn anghyffredin iawn. Felly, mae'n bwysig bod yr holl staff yn gyfarwydd â'r Fframwaith Asesu'r Risg o Gamfanteisio'n Rhywiol (SERAF) er mwyn gallu nodi plant sydd mewn perygl. Mae dangosyddion bregusrwydd a risg camfanteisio'n rhywiol ar blant wedi'u hen sefydlu ac maen nhw wedi'u hamlinellu isod.

Y ffactorau bregusrwydd i blant a phobl ifanc yw:

- cael eu hynysu oddi wrth gyfoedion / rhwydwaith cymdeithasol
- hanes teuluol o anawsterau iechyd meddwl
- hunan-barch isel
- cam-drin corfforol gan riant/gofalwr/aelod o'r teulu
- esgeulustod emosiynol gan riant/gofalwr/aelod o'r teulu
- hanes teuluol o gamddefnyddio sylweddau
- hanes teuluol o gam-drin domestig
- perthnasoedd teuluol yn chwalu
- llety anaddas/amhriodol
- diffyg perthynas gadarnhaol gydag oedolyn amddiffynnol

Y dangosyddion risg sy'n bwysig i fod yn ymwybodol ohonynt er mwyn helpu i nodi plant a phobl ifanc "mewn perygl" yw:

**Dangosyddion risg sylweddol:**

- cyfnodau o fynd ar goll dros nos neu'n hirach
- perthynas “gariadus” hŷn gydag oedolyn rheolaethol
- cam-drin corfforol / emosiynol gan y “cariad”/oedolyn rheolaethol hwnnw
- mynd i mewn i gerbydau / gadael cerbydau sy'n cael eu gyrru gan oedolion anhysbys
- symiau anesboniadwy o arian, dillad drud neu eitemau eraill
- mynd i ardaloedd sy'n adnabyddus am waith rhyw
- anaf corfforol heb esboniad credadwy

**Dangosyddion risg cymedrol:**

- aros allan yn hwyr
- galwyr lluosog (oedolion anhysbys / pobl ifanc hŷn)
- defnyddio ffôn symudol sy'n achosi pryder (e.e. galwadau cyson/ negeseuon testun/gwahanol ddynion yn galw)
- mynegi anobaith (hunan-niweidio, gorddos, anhwylder bwyta, ymddygiad heriol, ymddygiad ymosodol)
- datgelu ymosodiad rhywiol / corfforol ac yna tynnu honiad yn ôl
- heintiau a drosglwyddir yn rhywiol
- cyfoedion sy'n ymwneud â chlipio (cytuno ar gyfnewid am weithred rywiol ond heb fwriadu ei chyflawni) a neu gamfanteisio’n rhywiol
- camddefnyddio cyffuriau / alcohol
- defnydd o'r rhyngrwyd sy'n achosi pryder
- gwaharddiad o'r ysgol neu absenoldeb anesboniadwy neu ddim yn ymgysylltu yn y coleg / hyfforddiant
- byw'n annibynnol a methu ag ymateb i ymdrechion gan weithiwr i gadw mewn cysylltiad

Yn unol â gweithdrefnau amddiffyn plant y Coleg, os yw aelod o staff yn pryderu bod dysgwr mewn perygl o unrhyw fath o gamfanteisio rhywiol, dylai hysbysu'r Person Dynodedig neu'r Arweinydd Diogelu, yn eu habsenoldeb.

Bydd y Person Dynodedig neu'r Arweinydd Diogelu yn llenwi ffurflen asesu risg SERAF ac yn cyfeirio at Wasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol, lle mae'r plentyn yn byw.

**ATODIAD E**

## Priodas dan Orfod

**Y Gwahaniaeth rhwng Priodas wedi'i Threfnu a Phriodas dan Orfod**:

Mae'r traddodiad o briodasau wedi'u trefnu wedi gweithredu'n llwyddiannus o fewn llawer o gymunedau a llawer o wledydd ers amser maith. Rhaid gwahaniaethu'n glir rhwng priodas dan orfod a phriodas wedi'i threfnu. Mewn priodasau a drefnir, mae teuluoedd y ddau sy'n priodi yn chwarae rhan flaenllaw wrth drefnu'r briodas ond yr unigolion sy'n dewis a ddylid derbyn y trefniant. Mewn priodas dan orfod nid yw o leiaf un parti yn cydsynio i'r briodas ac mae rhyw elfen o orfodaeth yn gysylltiedig.

Mae priodas dan orfod yn fater o drais yn erbyn menywod yn bennaf. Mae'r rhan fwyaf o achosion yn ymwneud â menywod ifanc a merched rhwng 13 a 30 mlwydd oed, er bod tystiolaeth sy'n awgrymu bod cymaint â 15% o'r dioddefwyr yn ddynion.

Mae priodas dan orfod yn drosedd, gall y troseddau gynnwys cipio, trais corfforol, ymddygiad bygythiol. Mae cyfathrach rywiol heb gydsyniad yn drais rhywiol.

**Pa gamau y dylid eu cymryd os ydych chi'n amau y gallai dysgwr fod yn cael ei orfodi i briodi yn erbyn ei ewyllys**?

- Cysylltwch â'r Person Dynodedig neu'r Arweinydd Diogelu ar eich campws a fydd yn gwneud asesiad o'r achos ac yn penderfynu a ddylid cysylltu â MEWN, Gwasanaethau Cymdeithasol neu fynd yn uniongyrchol i'r Uned Priodasau dan Orfod gyda'r Heddlu.

- Os yw dysgwr o leiafrifoedd ethnig yn gadael y Coleg yn annisgwyl a heb esboniad, cysylltwch â'r Person Dynodedig neu'r Arweinydd Diogelu ar eich campws a fydd yn cysylltu â MEWN (E: administration@mewn-cymru.org.uk) er mwyn penderfynu pam mae'r dysgwr wedi gadael y Coleg yn 'sydyn' heb esboniad a monitro unrhyw bryderon.

**Rhifau Cyswllt**:

| | |
|---|---|
| BAWSO | 01633 213213<br>0800 731 8147 |
| Uned Priodasau dan Orfod (FMU) London | 020 7008 0151 |
| Heddlu Gwent<br>Uned Diogelu'r Cyhoedd | 01633 838111 |

Ar gyfer Gwent Fwyaf, cysylltwch â'ch Timau Dyletswydd ac Asesu

**ATODIAD F**

## Datganiad Diogelu Llwybrau Dysgu 14-19 (Gan gynnwys Addysg Etholedig yn y Cartref)

Fel rhan o'r Llwybrau Dysgu 14-19, mae disgyblion ysgol yn cael cyfle i astudio ystod o bynciau galwedigaethol y tu allan i amgylchedd yr ysgol (Sylfaen Dysgu). Mae Coleg Gwent yn bartner cydweithredol gyda llawer o ysgolion ac mae ganddo gytundebau ffurfiol gyda'i awdurdodau lleol, sy'n nodi'r trefniadau gweithredol i sicrhau bod gan bob parti ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'u hymrwymiadau a'u cyfrifoldebau fel rhan o'r cydweithio hwn. Mae hwn yn nodi'r meini prawf penodol canlynol fel rhan o'i Bolisi Amddiffyn Plant ac Oedolion mewn Perygl:

1. Mae amddiffyn plant yn cael blaenoriaeth dros Ddiogelu Data.
2. Bydd Coleg Gwent yn cysylltu â'r Ganolfan Ddysgu os bydd problem amddiffyn plant. Os nad yw hyn yn bosibl, bydd Coleg Gwent yn cysylltu â Swyddog Amddiffyn Plant yr Awdurdod Lleol a fydd yn cefnogi'r plentyn hyd nes y gall y Safle Dysgu gymryd y cyfrifoldeb nôl.
3. Mae'r Safle Dysgu yn gyfrifol am ei bolisi ei hun sy'n cwmpasu gweithio ar y cyd ac am sicrhau bod darpariaeth gydweithredol yn addas ar gyfer ei dysgwyr.
4. Mae'r Safle Dysgu yn gyfrifol am gynnal gwiriadau DBS ac am sicrhau bod Coleg Gwent wedi cynnal gwiriadau DBS manwl.
5. Rhaid i'r Safle Dysgu a Choleg Gwent sicrhau bod ymsefydlu priodol a chywir ar ddiogelu yn cael ei ddarparu i ddysgwyr yn ystod y cyfnod ymsefydlu.
6. Rhaid i'r Safle Dysgu a Choleg Gwent sicrhau bod personau dynodedig sydd wedi'u hyfforddi'n briodol yn cael eu nodi ym mhob sefydliad.
7. Dylai cytundebau nodi rhwymedigaethau a hawliadau'r holl lofnodwyr

**ATODIAD G**

## Siaradwyr Gwadd Allanol

Fel arfer, dylai siaradwyr gwadd allanol ddod ar wahoddiad Undeb Myfyrwyr Coleg Gwent (CGSU) neu glwb neu gymdeithas sy’n cael ei gydnabod gan CGSU neu sy'n gysylltiedig â'r CGSU. Ni ddylai dysgwr anfon gwahoddiad fel unigolyn neu grŵp o ddysgwyr (heb fod yn glwb neu gymdeithas gydnabyddedig neu gyswllt) heb ymgynghori ymlaen llaw â'r CGSU.

Rhaid i brif drefnydd cyfarfod lenwi'r Ffurflen Gais Siaradwr Gwadd drosodd a'i dychwelyd at Gyfarwyddwr y Gyfadran bedair wythnos cyn y digwyddiad arfaethedig. Bydd Cyfarwyddwr y Gyfadran yn ymateb o fewn 7 diwrnod gwaith.

Os oes angen, gall Cyfarwyddwr y Gyfadran atodi amodau, a bydd manylion y rhain yn cael eu rhoi yn yr adran ymateb. Mae gan Gyfarwyddwr y Gyfadran ddisgresiwn i ymgynghori â'r heddlu os yw o’r farn bod hynny'n angenrheidiol a gall hefyd wrthod caniatâd neu dynnu caniatâd a roddwyd eisoes yn ôl yn ddiweddarach os oes angen. Gall Cyfarwyddwr y Gyfadran hefyd orchymyn gwiriadau cefndir pellach ac mae’n cadw’r hawl i gynnal cyfweliad byr gyda'r siaradwr os yw o’r farn bod hynny'n angenrheidiol. Bydd Cyfarwyddwr y Gyfadran yn cwblhau Asesiad Risg fel y bo'n briodol.

Pan fydd cyfarfod yn mynd rhagddo, mae dyletswydd ar y trefnwyr i weld nad oes unrhyw beth yn eu paratoadau ar ei gyfer neu’r ffordd maen nhw’n ei gynnal yn torri'r gyfraith. Os bydd unrhyw bryderon yn codi, dylai'r trefnwyr roi gwybod i Gyfarwyddwr y Gyfadran ar unwaith.

Rhaid i'r trefnwyr gymryd cyfrifoldeb llawn am ddiogelwch a threfn y cyfarfod a dylent hysbysu'r staff perthnasol, gan gynnwys y dderbynfa, staff diogelwch a Phennaeth y Gwasanaethau Dysgwyr.

## Ffurflen Siaradwr Gwadd Allanol

Mae angen anfon ffurflenni wedi'u llenwi ac wedi'u llofnodi yn electronig at Swyddog Gwasanaethau Dysgwyr y campws a PA y Gyfadran er mwyn cadw cofnodion.

**Rhan A — Manylion y Trefnydd**

| | |
|---|---|
| Enw'r trefnydd: | |
| Cyfeiriad e-bost y trefnydd | |
| Cwrs: | |
| Ysgol/Cyfadran: | |

| | |
|---|---|
| Manylion llawn y digwyddiad gan gynnwys math o ddigwyddiad, amcanion, cynnwys, adnoddau, ac ati | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dyddiad y digwyddiad: | | Amser y digwyddiad: | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhif yr Ystafell | | Cadarnhau fod y manylion wedi'u hanfon i'r dderbynfa | |

**Rhan B — Manylion y Siaradwr/Gwesteion**

| | |
|---|---|
| Dylech gynnwys:<br>• Enw<br>• Sefydliad<br>• Dyddiad Geni (os o dan 18 mlwydd oed)<br>• Cyfeiriad e-bost<br>• Rhif Ffôn<br>• Manylion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (os yw'n berthnasol/os oes angen)<br>• Unrhyw euogfarnau troseddol a allai effeithio ar yr ymweliad | |

| | |
|---|---|
| Unrhyw fesurau lliniaru sydd angen bod ar waith i ddiogelu rhai dan 18 mlwydd oed yn ystod y digwyddiad | |

**Rhan C - Awdurdodi**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dim pryderon — gall digwyddiad fynd yn ei flaen | | Pryderon (rhowch fanylion yn y blwch isod) | |
| Manylion y Pryderon (os oes angen): | | | |
| | | | |

| | |
|---|---|
| Llofnod Cyfarwyddwr y Gyfadran a'r dyddiad: | |

**ATODIAD H**

**MATRICS HYFFORDDI**

| Swyddogaeth | Hanfodion Diogelu | Gweithio gyda'r Ddyletswydd Atal | Hanfodion E&D | Rheoli Amrywiaeth | Hanfodion GDPR | Iechyd a Diogelwch | Urddas yn y Gweithle | Ymwybyddiaeth Seiber | Diogelu Plant — Cydnabod, Atgyfeirio a'r Broses Amddiffyn Plant |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Diogelu | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Pob aelod o staff | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Yr holl reolwyr | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Penaethiaid Gwasanaethau Dysgwyr | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| ALSC | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Aelodau'r Bwrdd | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |